

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion
Gwledig

23 Ionawr 2018

Annwyl Lesley

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Ionawr 2018. Roedd yn siom i'r Pwyllgor na chafwyd mwy o ffocws yn yr ymateb i'r pedwar cwestiwn a godwyd ganddo yn ei lythyr dyddiedig 4 Rhagfyr. Roedd gan y Pwyllgor reswm da dros ddewis y cwestiynau hynny, sef bod pryder arbennig ynghylch yr angen am gyfiawnhad arbennig o ddeddfwriaeth ôl-weithredol (deillia'r pryder hwnnw o'r wers a ddysgodd y Cynulliad o ganlyniad i ddyfarniad y Goruchaf Lys yn achos Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) [2015] UKSC 3]).

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau tryloywder a thrafodaeth agored ynghylch materion hawliau dynol, yn arbennig oherwydd y byddai tryloywder a thrafodaeth agored yn helpu i wrthsefyll unrhyw her gyfreithiol i ddeddfwriaeth sy'n mynd drwy'r Cynulliad. O gofio bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried amryw faterion a'i bod wedi cloriannu'r buddiannau sy'n gwrthdaro, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gael y wybodaeth hon wrth law. Felly, nid yw'r Pwyllgor yn siŵr pam nad yw'r llythyr yn defnyddio'r wybodaeth honno i sicrhau bod gan yr ymateb i'r pedwar cwestiwn fwy o ffocws.

Yn gywir



David Melding AC
Cadeiryddion Dros Dro



Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

